4.164

Mawrth 18, 1910.

# Barddoniaeth

## LLWYDD YR YSGOL SABBOTHOL.

Mae miloedd yn Nghymru'n cael addysg yn rhad
Trwy'r Ysgol Sabbothol sy'n fendith i'n gwlad;
Mae'n helpu rhai ieuainc i ddarllen gair Duw,
Ac fel maent yn tyfu i'w ddeall a'i fyw.

Mae'r Ysgol Sabbothol yn uchel ei nod,
Mae'n dysgu'r gwirionedd perffeithiaf sy'n bod,
Sef geiriau'r Gwaredwr sy'n fywyd a nerth,
I harddu a chodi cymmeriad mewn gwerth,

Mae'r Beibl yn llusern i'n traed ar y llawr,
A llewyrch i'n llwybrau, diolchwn yn fawr;
O derbyn ei addysg yn ufudd a llon,
Boddlonrwydd diddiwedd a leinw ein bron.

B'le cafodd pregethwyr rhagoraf ein tir
Symbyliad i ddechreu ar lwybrau y gwir;
A dynion da ereill, enwogion y ffydd,
Ond trwy gael yr ysgol ar ddechreu eu dydd?

Prif amcan yr ysgol yw enill y dyn
I gredu'r efengyl fendigaid ei hun;
A chael ei holl ddeiliaid i gymmod a Duw,
Ei garu'n wastadol, ac iddo byth fyw.

Bu addysg yr ysgol yn nechreu fy oes
Yn help i fy arwain at grefydd y Groes,
Lledaener ei haddysg trwy'r gwledydd i gyd
A'i gwersi grasusol fo'n gyfoeth i'r byd.

Athrawon yr ysgol sy'n rhoddi eu bryd
Ar ddysgu ac enill ei deiliaid i gyd;
Yn syml ac eglur fel goleu y dydd
Y byddo ei haddysg yn ngeiriau y ffydd.

Wyr ieuainc hoff Cymru, myfyriwch o hyd
'R Ysgrythyr a rowd yn oleuni i'r byd;
A rhowch i'r gwirionedd bob parch a mawrhad
Fel caffoch y bywyd o fythol barhad.

Yr eglwys a'r ysgol fo'n gweithio yn nghyd,
Dan fendith y nefoedd, nes enill y byd;
Y bywyd ysbrydol dyrchafol a glan
A lanwo y ddaear a'r nefoedd a chan.

Caerdydd. Wm. Davies (Cymru Fydd).